OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 590 (Cy.86)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Cyffordd Llanelidan i Glawdd Poncen, Sir Ddinbych) (Cyfyngiadau Traffig Dros Dro a Gwaharddiad) 2011

Gwnaed	*1 Mawrth 2011*
Yn dod i rym	*7 Mawrth 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A494) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig neu gyfyngu arno ar ddarnau penodol o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt;

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 **(1)** a phob pŵer galluogi arall (**2**), yn gwneud y Gorchymyn hwn:

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Mawrth 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Cyffordd Llanelidan i Glawdd Poncen, Sir Ddinbych) (Cyfyngiadau Traffig Dros Dro a Gwaharddiad) 2011.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" (*"works period"*) yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 06:00 o'r gloch ar 7 Mawrth 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig wedi cael eu symud ymaith yn derfynol:

ystyr "y darn o'r gefnffordd" (*"the length of the trunk road* ") yw'r darn o gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru yn gyflymach na 40 mya ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru yn gyflymach na 10 mya ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

6. Ni fydd darpariaethau erthygl 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt ar waith.

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 1 Mawrth 2011

G MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru.

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru..

YR ATODLEN

Y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 50 o fetrau i'r Gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â'r B5429 sy'n arwain i bentref Llanelidan ac i gyffordd yr A494/A5104.